Rhif: **WG23257**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Safonau'r Gymraeg: Rheoliadau

Gwella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg

Dyddiad cyhoeddi: **7 Tachwedd 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **5 Rhagfyr 2014**

# Safonau'r Gymraeg: Rheoliadau

## Gwella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn pobl am y rheoliadau drafft i bennu'r safonau cyntaf ar gyfer y Gymraeg. Bydd y safonau hyn yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg roi dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar Gynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Sir yng Nghymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a Gweinidogion Cymru.

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad pedair wythnos hwn i sicrhau bod pawb sydd â diddordeb wedi cael digon o gyfle i ddweud eu dweud ar y cylch cyntaf o safonau. Rhwng 27 Ionawr ac 18 Ebrill 2014, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad safonau gyda'r sefydliadau y bydd y gyfres gyntaf o safonau yn berthnasol iddynt. Roedd ei chasgliadau, a gyflwynodd inni ar ffurf tri adroddiad a nodyn cyngor, yn seiliedig ar y sylwadau a dderbyniodd yn ystod yr ymchwiliad hwnnw. Wedi rhoi sylw dyledus i'w hadborth, rydym nawr am i'r cyhoedd, y cyrff a fydd yn destun y cylch cyntaf o safonau, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb gael dweud eu dweud ar y rheoliadau a fydd yn pennu'r safonau cyn inni eu gwneud.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **5 Rhagfyr 2014** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg

*Ymateb Gweinidogion Cymru i adroddiadau safonau a nodyn cyngor Comisiynydd y Gymraeg* (2014)

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Uned y Gymraeg
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Rhadbost NAT 8910
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3BR
e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014
WG23257

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Cefndir** **3**
Ble rydym ni arni ar hyn o bryd? **3**

**Y broses – sut bydd y safonau yn gweithio?** **4**
Y safonau 4
Hysbysiadau cydymffurfio 5
Safonau atodol 5
Apelio 5
Sancsiynau 6

**Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?** **7**

**Gan bwy ydyn ni am glywed am y rheoliadau?** **8**
Plant a phobl ifanc 8

## Cyflwyniad

Mae'r safonau arfaethedig ar gyfer y Gymraeg yn cael eu creu er mwyn rhoi mwy o hawliau i siaradwyr Cymraeg, hawliau y gellir eu gorfodi. Byddant yn gwneud hyn drwy osod safonau ar sefydliadau mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu, hybu a chadw cofnodion. Mae'r gyfres gyntaf o safonau yn delio'n benodol ag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Rhwng 27 Ionawr ac 18 Ebrill 2014, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg (‘y Comisiynydd’) Ymchwiliad Safonau gyda'r sefydliadau y bydd y gyfres gyntaf o safonau yn berthnasol iddynt. Pan gyflwynodd ei hadborth i Weinidogion Cymru, dywedodd wrthym fod llawer o bobl a sefydliadau am gael dweud eu dweud ar faterion a oedd y tu hwnt i gylch ei hymchwiliad. Awgrymodd, felly, ein bod yn cynnal ymgynghoriad yn gofyn i bobl am eu barn am y rheoliadau drafft i wneud y safonau.

O’u cymharu â’r safonau drafft a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, mae'r rheoliadau drafft yn y ddogfen atodol yn rhoi mwy o fanylion am y safonau arfaethedig.

Mae'r ymgynghoriad hwn, felly, yn gyfle i unrhyw un sydd â diddordeb yn y safonau gael dweud eu dweud amdanynt, ac i weld sut rydym wedi ymgorffori awgrymiadau'r Comisiynydd ar sail ei hymchwiliadau safonau yn y rheoliadau drafft eu hunain.

# Cefndir

Rhaid gwneud y safonau drwy eu pennu mewn rheoliadau. Rôl Llywodraeth Cymru oedd drafftio'r safonau yn ogystal â’r rheoliadau. Unwaith y caiff y rheoliadau sy’n cynnwys y safonau eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol, mater i’r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw.

## Ble rydym ni arni ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, mae gan gyrff y sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru - megis Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru - gynlluniau iaith. Mae gan rai cwmnïau preifat mawr sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd - megis Swyddfa'r Post, cwmnïau cyfleustodau, a chwmnïau rheilffyrdd - hefyd gynlluniau o'r fath.

Gweithredir y cynlluniau hyn o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Crewyd y system safonau newydd rydym yn ei chynnig o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru wedi newid ers Deddf 1993. O ganlyniad, nid yw cynlluniau iaith bellach yn sicrhau dull cyson, dibynadwy a chlir o reoleiddio'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir yng Nghymru.

Mae'r cynlluniau iaith wedi llwyddo i godi proffil gwasanaethau a ddylai fod ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod llawer o'r gwasanaethau hynny yn cael eu darparu erbyn hyn. Lle maent yn syrthio'n brin, fodd bynnag, yw eu hanallu i osod cosb pan na chyflawnir gofynion sylfaenol y cytunwyd arnynt mewn cynllun.

Er bod y system cynlluniau iaith wedi arwain at rai canlyniadau da, gyda rhai sefydliadau yn ymdrechu'n wirioneddol i ddiogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu sefydliad, ar y cyfan bu'n rhaid negodi â sefydliadau er mwyn sicrhau eu hymrwymiad i wasanaethau Cymraeg. Yn aml mae hyn wedi arafu'r cynnydd, ac wedi golygu nad oedd gwarant o lwyddiant.

Mae'r safonau wedi'u drafftio mewn ffordd sy'n adeiladu ar y cynlluniau iaith. Bellach, bydd yn ofynnol i sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol, strategol i roi lle canolog i'r Gymraeg. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg i wella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

Caiff y safonau eu cyflwyno'n raddol, gan ddisodli’r cynlluniau iaith fesul sector, yn unol â system flaenoriaethu.

# Y broses – sut bydd y safonau yn gweithio?

## Y safonau

Mae'r safonau wedi'u drafftio er mwyn delio ag ystod eang o sefyllfaoedd.

Bydd y rheoliadau drafft yn y ddogfen atodol yn creu'r cylch cyntaf o safonau, sy'n berthnasol i Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a Gweinidogion Cymru. Maent yn dod o dan 5 pennawd:

1. Safonau cyflenwi gwasanaethau
2. Safonau llunio polisi
3. Safonau gweithredu
4. Safonau hybu
5. Safonau cadw cofnodion

**1 – Safonau cyflenwi gwasanaethau** - gosodir y rhain mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau er mwyn hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**2 – Safonau llunio polisi** - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith, ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**3 – Safonau gweithredu** - bydd y rhain yn delio â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliadau. Os gosodir safonau gweithredu ar sefydliad, bydd disgwyl i'r sefydliad hwnnw gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.

**4 – Safonau hybu** - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fabwysiadu strategaeth yn amlinellu sut maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Dim ond i Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y mae'r safonau hybu yn berthnasol. Ni fyddant, felly, yn ystyriaeth wrth ddrafftio safonau yn y dyfodol. Ond ni fydd modd rhoi hysbysiad cydymffurfio ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r safonau hybu, gan fod dyletswydd tebyg eisoes yn bodoli yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**5 – Safonau cadw cofnodion** - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am gwynion.  Bydd y cofnodion hyn yn helpu'r Comisiynydd i sicrhau bod sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau.

## Hysbysiadau cydymffurfio

Mae'r rheoliadau drafft yn amlinellu ystod y safonau y gellir eu gosod ar sefydliad. Does dim gofyniad i'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad gydymffurfio â phob safon.

Efallai y bydd yn rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau ac nid mewn rhai eraill, neu mewn rhai ardaloedd ac nid mewn rhai eraill – yn amodol ar yr hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur ar gyfer y sefydliad. Penderfyniad y Comisiynydd fydd hynny, a chaiff ei nodi yn hysbysiad cydymffurfio'r sefydliad.

Yn hynny o beth, bydd ganddi hyblygrwydd wrth ddewis gyda pha safonau (ac i ba raddau) y bydd yn rhaid i sefydliad gydymffurfio. Bydd y Comisiynydd hefyd yn pennu'r dyddiad pryd y bydd yn rhaid i'r sefydliad fod wedi cydymffurfio â safon. Gallai'r dyddiadau fod yn wahanol ar gyfer gwahanol safonau.

Bydd sawl opsiwn yn agored i'r Comisiynydd, felly, o ran dewis pa safonau i'w gosod ar sefydliad. Mae'r safonau arfaethedig yn adlewyrchu'r hyblygrwydd hwn (gweler, er enghraifft, safonau 27 a 27A i 27E). Mae'r system hon hefyd yn caniatáu i sefydliadau wella eu darpariaethau yn y dyfodol.

Mae rhai o'r safonau yn ddibynnol ar ei gilydd. Mae'r rheoliadau felly yn cynnwys tabl i gyd-fynd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu. Mae'r tablau hyn yn rhestru pa safonau eraill y bydd angen eu gosod pan fydd safon benodol yn cael ei chynnwys mewn hysbysiad cydymffurfio.

## Safonau atodol

Mae'r rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys safonau atodol (yn Atodlen 6). Mae'r safonau atodol hyn yn delio â materion amrywiol, gan gynnwys llunio adroddiad blynyddol, trefniadau monitro a darparu gwybodaeth ar gyfer y Comisiynydd.

## Apelio

Bydd modd i unrhyw sefydliad herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol, ar sail p'un a yw'n rhesymol ac yn gymesur disgwyl iddynt wneud hynny.

Yn y lle cyntaf, bydd sefydliad yn gallu herio'r Comisiynydd ei hun, drwy gwestiynu'r safonau a osodwyd yn ei hysbysiad cydymffurfio.

Os na allant ddatrys yr anghydfod, mae modd apelio i Dribiwnlys newydd y Gymraeg, ac wedi hynny i'r Uchel Lys (ar gwestiwn cyfreithiol).

## Sancsiynau

Y Comisiynydd fydd â'r prif gyfrifoldeb dros sicrhau y cydymffurfir â'r safonau.

Mewn achosion lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon, gall gymryd camau gorfodi.

O dan y Mesur, gall camau gorfodi amrywio o lunio argymhellion neu roi cyngor i sefydliad, i orfodi cosb sifil nad yw'n fwy na £5,000.

## Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?

Mae'r safonau wedi'u drafftio gyda'r nod o:

- wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn Gymraeg
- cynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg
- ei gwneud yn eglur i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud mewn perthynas â'r Gymraeg
- sicrhau bod y safonau'n rhesymol ac yn gymesur fel bod modd i sefydliadau gydymffurfio â nhw
- sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau ac ardaloedd daearyddol

## Gan bwy ydyn ni am glywed am y rheoliadau?

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad pedair wythnos hon er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd a'r cyrff a fydd yn destun y cylch cyntaf o safonau wedi cael digon o gyfle i ddweud eu dweud am y safonau hynny. Rydym yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y safonau.

### Plant a phobl ifanc

Wrth ddrafftio'r safonau a'r rheoliadau, fe wnaethom gadw mewn golwg pa mor berthnasol yw hawliau ieithyddol i blant a phobl ifanc.

Byddwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli yn yr adborth drwy dargedu grwpiau sy'n eu cynrychioli.

Gellir gweld asesiad effaith i'r perwyl hwn ar gais.